No.

# PWYLLGOR CRAFFU'R AMGYLCHEDD AC ADFYWIO

Cofnodion cyfarfod Hybrid a gynhaliwyd ar 16 Ebrill, 2024.

Mae-r Agenda ar gael yma.

Mae recordiad y cyfarfod ar gael yma.

Yn Bresennol: Y Cynghorydd S. Lloyd-Selby (Cadeirydd); Cynghorydd I.A.N. Perry (Is-Gadeirydd); Cynghorwyr C.E.A. Champion, P. Drake, M.J. Hooper, C. Iannucci-Williams, E. Penn, J. Protheroe a S.T. Wiliam

Hefyd yn bresennol: Cynghorwyr A. Asbrey, J. Aviet, R.M. Birch (Aelod Cabinet dros Addysg, y Celfyddydau a'r Iaith Gymraeg), B.E. Brooks (Dirprwy Arweinydd ac Aelod Cabinet dros Leoedd Cynaliadwy), G. Bruce, I.R. Buckley, L. Burnett (Arweinydd Gweithredol ac Aelod Cabinet dros Berfformiad ac Adnoddau), S. Campbell, E. Goodjohn, C. Stallard, E. Williams (Aelod Cabinet dros Ofal Cymdeithasol ac Iechyd) ac MR Wilson (Aelod Cabinet dros Wasanaethau Cymdogaeth ac Adeiladu).

999 CYHOEDDIAD –

Cyn cychwyn busnes y Pwyllgor, darllenodd y Cadeirydd y datganiad a ganlyn: "A gaf i atgoffa pawb sy'n bresennol y bydd y cyfarfod yn cael ei ffrydio'n fyw yn ogystal â'i recordio trwy'r rhyngrwyd ac mae'r recordiad hwn wedi'i archifo i'w weld yn y dyfodol."

1000 YMDDIHEURIAD AM ABSENOLDEB –

Derbyniwyd hwn gan y Cynghorydd V.P. Driscoll.

1001 COFNODION –

ARGYMHELLWYD – CYMERADWYO cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 20 Chwefror a 12 Mawrth, 2024 fel cofnod cywir.

1002 DATGANIADAU BUDDIANT –

Datganodd y Cynghorwyr C.E.A. Champion ac S.T. Wiliam fuddiant personol mewn perthynas ag Eitem 5 ar yr Agenda – Adolygiad o Adroddiad Diweddaru Cynlluniau Trwyddedau Parcio Preswyl 2021 y Cyngor. Natur y diddordeb oedd bod y ddau Gynghorydd yn meddu ar Drwyddedau Parcio. Siaradodd y ddau Aelod o'r Pwyllgor yn y cyfarfod a gadael ar ôl iddynt gyflwyno eu sylwadau.

1003 CEISIADAU I'W HYSTYRIED: GWASANAETHAU BWS –

Roedd y Cynghorydd Ewan Goodjohn wedi gofyn am ystyried Llwybrau, Safleoedd a Llochesi Bysus yn dilyn y toriad diweddar i wasanaethau bysus o ganlyniad i newidiadau i amserlenni Bws Caerdydd, bygythiad toriadau i lwybrau hanfodol mewn ardaloedd gwledig yn y Fro, cyflwr presennol hen lochesi bysus yn y Barri a'r Fro wledig ac i amddiffyn pobl agored i niwed yn ystod argyfwng costau byw.

Roedd y Cynghorydd S. Campbell wedi gofyn am ystyried dyfodol a chynaliadwyedd y gwasanaethau bysus ym Mro Morgannwg.  Dywedodd fod cyfarfod diweddar wedi'i gynnal gydag Adventure Travel a thrigolion lleol i drafod dyfodol y gwasanaethau bysus 304/303 yng nghefn gwlad y Fro.  Dywedodd Adventure Travel wrth drigolion y byddent o bosib yn torri gwasanaethau yn seiliedig ar nifer y teithwyr neu'n newid yr amlder i "wella eu gwasanaethau". Fodd bynnag, nid oedd hyn wedi'i gyhoeddi.  Bu llawer o ddyfalu am gyllid, y gyfnewidfa a'r hyn yr oedd ac nad oedd y Cyngor yn ei gyllido.  Roedd hi'n teimlo bod angen cael fforwm cyhoeddus agored gyda swyddogion, cynghorwyr, cwmnïau bysus, Gweinidogion Cymru a rhanddeiliaid eraill i drafod dyfodol y gwasanaethau bysus ym Mro Morgannwg.  Ar hyn o bryd nid oedd unrhyw atebolrwydd ar gyfer Adventure Travel am eu bod yn credu nad oedd gan y Cyngor unrhyw opsiwn arall yn y Fro.  Roedd y Cynghorydd Campbell yn teimlo bod opsiwn arall o ran cysylltu â Trafnidiaeth Cymru (TC) i ofyn am gymorth mewn ffordd newydd ymlaen i gael rheolaeth dros hyn ein hunain.  Roedd angen trafodaeth gyda'r holl randdeiliaid a oedd yn rhan o ddod o hyd i benderfyniad i symud ymlaen gan fod gwybodaeth yn cael ei hidlo drwy'r cyfryngau a sianeli gwleidyddol yn hytrach nag yn uniongyrchol o'r ffynhonnell.

Cafwyd adroddiad mewn ymateb i'r ddwy ffurflen Cais am Ystyriaeth a dderbyniwyd gan y Cynghorydd S. Campbell a'r Cynghorydd Ewan Goodjohn. Rhoddodd yr adroddiad grynodeb o agweddau'r gorffennol fel dadreoleiddio gwasanaethau bysus dan Ddeddf Trafnidiaeth 1985 a rôl y Cyngor wrth gefnogi a monitro'r rhwydwaith masnachol cyffredinol.

Rhoddodd yr adroddiad hefyd grynodeb o'r gwasanaethau cyfredol a oedd yn cael eu darparu a'r ymarfer tendro rhanbarthol diweddar dan 'Gronfa Rhwydwaith Bysus' Llywodraeth Cymru.

Yn olaf, rhoddodd yr adroddiad wybodaeth am ddatblygiadau a chynlluniau Llywodraeth Cymru yn y dyfodol.  Rhoddwyd gwybod i'r Pwyllgor, er bod y cyllid gan Lywodraeth Cymru wedi cael ei groesawu i gadw gwasanaethau bysus fel yr oeddent, nad oedd unrhyw gyllid gwarantedig ar hyn o bryd ar ôl mis Mawrth 2025. Oherwydd hynny nid oedd yn sicr sut olwg fyddai ar y rhwydwaith bysus o fis Ebrill 2025.

Croesawodd y Cadeirydd Mr Stephen Cooper, a oedd wedi cofrestru i siarad ar yr eitem agenda.  Dywedodd y Cadeirydd wrth Mr Cooper y byddai ganddo dri munud i siarad gerbron y Pwyllgor.

Dechreuodd Mr Cooper drwy ddweud ei fod yn syrfëwr ymddeoledig 72 oed, a oedd wedi byw yn y Rhws ers dros 30 mlynedd. Dywedodd na allai yrru oherwydd glawcoma a bod ganddo broblemau symudedd. Dywedodd ei fod yno i bledio am adfer Adran Fonmon Road o'r llwybr bysus 304 yn y Rhws. Ychwanegodd Mr Cooper fod y gostyngiad mewn gwasanaethau bysus wedi methu yn erbyn Bil Gwasanaethau Bysus (Cymru) mewn perthynas â'r nodau datganedig o wneud gwasanaethau bysus - yn haws eu defnyddio, yn hygyrch ac yn ymatebol. Dywedodd Mr Cooper fod y Rhws yn bentref mwy gyda phoblogaeth tua 50% yn fwy na phoblogaeth y Bont-faen. Roedd tua 800 o bobl, tua 12% o boblogaeth y Rhws, yn byw yn ardal Fonmon Road. Roedd llwybr Fonmon Road (3 safle bws gan gynnwys Fonmon Cross) yn gwasanaethu 800 o bobl yn uniongyrchol. Ychwanegodd Mr Cooper fod y llwybr bysus diwygiedig ar hyd ffordd yr arfordir dim ond yn gwasanaethu un safle bws i Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig Aberddawan. Dim ond 0.4 milltir yn fyrrach oedd y llwybr hwnnw, tua 1 – 2 funud mewn amser teithio ar fws. Dywedodd Mr Cooper fod canran sylweddol o boblogaeth Fonmon Road dros 60 oed. Roedd llawer o fyngalos yn ardal Adenfield Way gyda phoblogaeth o 250 o bobl gyda thua 50% ohonynt dros 60 oed. Roedd dim bysus ar Fonmon Road yn arwain at wahaniaethu'n anghymesur yn erbyn y grŵp oedran hwnnw a oedd yn fwy tebygol o fod â phroblemau symudedd a pheidio â gyrru. O ran dal bws ar Fontygary Road, dywedodd Mr Cooper fod tagfa wrth y Fontygary Arms, nad oedd llwybr troed a bod yr ardal honno’n dueddol o ddioddef llifogydd cyson. Roedd dargyfeiriad i'r safle nesaf ar hyd Fontygary Road trwy Kenson Close ond roedd yn hirach ac ar hyd tri llwybr sydd wedi'u goleuo'n wael. Yn olaf, dywedodd Mr Cooper "gwnaethoch chi roi pàs bws i mi yn 60 oed ac yna pan oedd angen i mi ei ddefnyddio fwyaf, gwnaethoch chi fynd â'r bws i ffwrdd".

Fel pwynt eglurhad, gofynnodd y Cynghorydd I. Perry i Mr Cooper ba gyrchfan y mae'n cysylltu ag ef. Mewn ymateb, dywedodd Mr Cooper y byddai'r bws yn mynd ag ef i'r Barri ac i Gaerdydd a'i fod yn ddefnyddiol ar gyfer teithiau i'r ysbyty neu ar gyfer amser hamdden. Roedd yn ecogyfeillgar ac yn arbed arian o gymharu â defnyddio'r car.

Gofynnwyd i Reolwr Gweithredol y Gwasanaethau Trafnidiaeth wneud sylwadau ar rai o'r pwyntiau a godwyd gan Mr Cooper a dywedodd fod y gwasanaeth 304 a oedd gynt yn cael ei redeg gan Adventure Travel, yn rhedeg yn ystod y dydd fel gwasanaeth masnachol. Felly, nid gwasanaeth contract gan y Cyngor oedd hwn. Cafodd rhan Fonmon o’r daith ei thynnu gan fod Adventure Travel yn cael problemau amseru penodol ac yn ceisio dod o hyd i'r gweithrediad gorau er mwyn bodloni'r amserlen. Pan gafodd y gwasanaeth ei aildendro, cytunwyd y byddent yn cael eu tendro'n fasnachol felly ni chafodd y rhan honno o'r daith ei chynnwys eto. Fodd bynnag, roedd lle i drafod gyda darparwyr ynghylch ailychwanegu rhai o'r llwybrau coll felly roedd posibilrwydd y byddai'r llwybr yn cael ei ymestyn.

Dywedodd y Cadeirydd fod pryderon ynghylch beth fyddai'n digwydd pe na bai'r gronfa rhwydwaith bysus yn cael ei chynnal y tu hwnt i fis Mawrth 2025. Mewn ymateb, dywedodd y Rheolwr Gweithredol fod Gweithgor Bysus De-ddwyrain Cymru yn cyfarfod bob mis, ond gellir cynnal y cyfarfodydd hynny’n fwy aml er mwyn mynd i'r afael â phroblemau. Ar hyn o bryd, nid oedd yn hysbys a fyddai Llywodraeth Cymru yn parhau i roi cyllid ar ôl mis Mawrth 2025.

Dywedodd y Cynghorydd M. Hooper y byddai llawer o bobl debyg i Mr Cooper yn y Fro nad oeddent yn bresennol yn y cyfarfod ac nad oedd eu lleisiau'n cael eu clywed. Gwnaeth y Cynghorydd Hooper sylw ar y gwasanaethau hanfodol a oedd yn cael eu darparu trwy drafnidiaeth gyhoeddus ledled Bro Morgannwg, Cymru a gweddill y Deyrnas Unedig. Dangoswyd pwysigrwydd trafnidiaeth gyhoeddus gan y gwaith diweddar a wnaed gan y Cyngor ar ei Gynllun Datblygu Lleol Newydd, lle'r oedd safleoedd datblygu tai mawr wedi'u lleoli i gyd-fynd â'r rhwydwaith rheilffyrdd. Mynegodd y Cynghorydd Hooper bryder ynghylch sut roedd rhwydweithiau'n cael eu cynllunio a'u hystyried. Yn ogystal, gofynnodd y Cynghorydd Hooper am farn mewn perthynas â Sefydliad Browns yn 2018 a alwodd am drafnidiaeth gyhoeddus am ddim yng Nghymru. Awgrymwyd y byddai trafnidiaeth am ddim yn allweddol er mwyn brwydro'n erbyn y newid yn yr hinsawdd ond y byddai hefyd yn brwydro'n erbyn tlodi ledled Cymru. Yn olaf, cyfeiriodd y Cynghorydd Hooper at fethiant strategol gan Fargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd gan nodi enghraifft Dociau'r Barri nad oedd ganddynt unrhyw fysus am y nifer gyntaf o fisoedd.

Mewn ymateb i'r pwyntiau a godwyd gan y Cynghorydd Hooper, dechreuodd y Rheolwr Gweithredol trwy gyfeirio at Gyfnewidfa Dociau'r Barri a dywedodd fod cytundeb gyda darparwr ar waith ar adeg datblygu'r Gyfnewidfa ond yn anffodus cafodd y gwasanaeth hwnnw ei ganslo. Bryd hynny, roedd gweithredwyr yn ymwybodol o'r ffaith bod y farchnad yn ansefydlog ac felly nid oeddent yn fodlon newid eu hamserlenni na gweithredu'n wahanol nes bod y mater o gyllid yn y dyfodol wedi'i gadarnhau. Ar hyn o bryd, roedd mwy o wasanaethau yn rhedeg i mewn i'r Gyfnewidfa. O ran teithio am ddim, dywedodd y Rheolwr Gweithredol fod angen cydnabod colli refeniw i weithredwyr a byddai effaith gostwng nifer y teithwyr yn y pen draw yn golygu y byddai'n rhaid i'r Cyngor dalu unrhyw gynllun teithio am ddim. Byddai hynny'n her o ystyried yr anhysbysion ynghylch cyllid gan Lywodraeth Cymru yn y dyfodol. Dywedodd y Rheolwr Gweithredol fod y farchnad yn 2018 yn fwy cadarn gyda mwy o wasanaethau a gweithredwyr masnachol a oedd yn gwneud digon o elw i gadw'r gwasanaethau i redeg heb unrhyw fewnbwn ariannol gan Gyngor y Fro na Llywodraeth Cymru. Yn anffodus, nid dyna'r sefyllfa ar hyn o bryd.

Gofynnodd y Cynghorydd J. Protheroe beth oedd cynlluniau'r Cyngor i annog pobl i ddefnyddio bysus eto a beth oedd y cynlluniau ar gyfer rhannau gwledig o'r Fro a oedd yn dibynnu ar Greenlinks. Mewn ymateb, dywedodd y Rheolwr Gweithredol fod y Cyngor, o ran cynyddu'r defnydd o wasanaethau bysus, yn edrych ar wella seilwaith fel e-arddangosfeydd newydd a fyddai'n rhoi gwybodaeth amser real. Yn ogystal, roedd y Cyngor yn edrych ar gynllun prisiau teithio llai, yn enwedig ar y gwasanaeth 303 yn ystod yr haf y gellid ei ddatblygu drwy gyllid Adran 106. O ran Greenlinks, roedd mater adnoddau a recriwtio i swyddi ond roedd cydlynydd ar gyfer Greenlinks wedi'i benodi'n ddiweddar a byddai'n gallu canolbwyntio ar recriwtio mwy o yrwyr gwirfoddol.

Cododd y Cynghorydd I. Perry nifer o bwyntiau ac ymholiadau, y gellid eu crynhoi fel a ganlyn:

- Roedd yn wael i'r wlad ddibynnu ar yrwyr gwirfoddol am wasanaeth cyhoeddus mor bwysig fel bysus, felly dylai rôl gyrrwr bws fod yn swydd â thâl;
- Roedd trafnidiaeth gyhoeddus am ddim ar draws Bro Morgannwg yn rhywbeth y dylid ei ddatblygu a fyddai'n cynorthwyo pobl ifanc yn ogystal â'r rhai a oedd wedi ymddeol;
- Byddai teithio am ddim ar fysus hefyd yn debygol o gynyddu'r defnydd o fysus a allai arwain yn y pen draw at greu mwy o wasanaethau a byddai hefyd yn cynorthwyo i fynd i'r afael a'r argyfwng hinsawdd a gallai gyfrannu at fynd i'r afael â'r argyfwng costau byw;
- Roedd y prif benderfyniadau strategol ar drafnidiaeth gyhoeddus yn San Steffan a Llywodraeth Cymru yn cael eu gwneud gan berchnogion ceir a oedd â rhagfarn yn erbyn bysus a thrafnidiaeth gyhoeddus yn ei farn ef.
- Roedd angen i'r drafodaeth strategol ynghylch trafnidiaeth gyhoeddus fod sut roedd pobl yn defnyddio eu ceir yn llai, gyda mwy o bwyslais yn cael ei roi i gerdded, beicio a chynlluniau beiciau newydd fel y parcio diogel a oedd yn galluogi beicwyr i fod yn hyderus bod eu beiciau mewn lleoliad diogel;
- Ar hyn o bryd roedd tri gwasanaeth bws yn defnyddio Croes Cwrlwys gyda'r 96 yn mynd trwy Wenfô, y C1 a'r X2 a oedd yn pasio'r holl ffordd drwodd i Gaerdydd, ond roedd angen mwy o feddwl ynghylch cysylltedd. Yn enwedig gan y byddai'n rhaid i rai o drigolion Sain Nicolas yrru i Wenfô er mwyn dal bws i Dreganna;
- Roedd angen system gydgysylltiedig gyflawn wedi'i hariannu'n iawn.

Gofynnodd y Cadeirydd i'r Rheolwr Gweithredol egluro'r sefyllfa gyda gyrwyr bysus gwirfoddol ar gyfer gwasanaethau Greenlinks ymhellach. Mewn ymateb, dywedodd y Rheolwr Gweithredol fod gweithrediad Greenlinks yn gweithio'n dda iawn yn flaenorol gyda llawer o yrwyr gwirfoddol wrth law. Felly roedd nifer o gymunedau gwledig yn y Fro'n cael eu gwasanaethu drwy greu'r gwasanaeth G1 a'r gwasanaeth G4. Ar ôl i fwy o wirfoddolwyr gael eu recriwtio, gallai'r Cyngor edrych ar ailgyflwyno mwy o wasanaethau a oedd yn llwyddiannus cyn pandemig Covid.

Dywedodd y Cynghorydd E. Penn ei bod yn siomedig bod y gwasanaeth 89-B yn Llandochau wedi cael ei dynnu a oedd yn ei gwneud yn anoddach i bobl gyrraedd Ysbyty Llandochau. Tynnodd y Cynghorydd Penn sylw hefyd at amserlenni bysus a oedd yn cynnwys print mân ac a oedd hefyd weithiau ychydig yn rhy uchel o'r ddaear. Mewn ymateb, dywedodd y Rheolwr Gweithredol fod staff y Cyngor wedi edrych ar hygyrchedd amserlenni ac y byddai hyn yn cael ei ystyried eto. O ran y gwasanaeth 89-B, roedd hyn yn debyg i lwybr Adventure Travel ar gyfer y gwasanaeth 303 a bu'n rhaid addasu'r amserlennu er mwyn i'r gwasanaeth gyrraedd ei gyrchfan terfynol ar amser. Fel y nodwyd yn flaenorol, roedd y Cyngor yn gweithio gyda First Cymru i edrych ar yr ardaloedd hynny a fethodd allan gyda'r gobaith y gellid ailgyflwyno rhai gwasanaethau.

Dywedodd y Cynghorydd B. Brooks (Dirprwy Arweinydd a'r Aelod Cabinet dros Leoedd Cynaliadwy), gyda chaniatâd i siarad, ei bod yn bwysig cydnabod bod cynllunio a chyllid ar gyfer cyfnewidfa Dociau'r Barri wedi'u hystyried amser hir cyn pandemig Covid, a oedd wedi effeithio ar wasanaethau bysus. Roedd y Cyngor wedi gweithio'n galed i ddenu gwasanaethau i ddefnyddio'r gyfnewidfa.

Yn dilyn hynny,

ARGYMHELLWYD –

(1) BOD Pwyllgor Craffu Adfywio a’r Amgylchedd yn derbyn adroddiad diweddaru ymhen 6 mis, a ddylai hefyd fynd i'r afael â rhai o'r materion mewn perthynas â'r Cynllun Datblygu Lleol Newydd o ran llwybrau bysiau a chynlluniau'r Cyngor ar gyfer datblygiadau tai sylweddol. Yr adroddiad hefyd i ymdrin â'r gwaith sy'n cael ei wneud gan Fargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd ac mewn perthynas â'r bartneriaeth ranbarthol sy'n gweithio ar draws yr awdurdodau lleol, yn ogystal â diweddariadau mewn perthynas â gwasanaeth bws G1 Greenlinks.

(2) O safbwynt cydraddoldeb, ystyried hygyrchedd amserlenni bysiau ac a oedd hynny'n rhywbeth i Fforwm Ymgynghorol Cydraddoldeb y Cyngor gael ei holi amdano. Canlyniad unrhyw adolygiad dilynol i'w gynnwys yn yr adroddiad diweddaru 6 mis yn unol ag Argymhelliad (1) uchod.

(3) BOD Argymhellion (1) a (2) uchod yn cael eu cyfeirio at y Cabinet er gwybodaeth ac ystyriaeth, a hysbysu'r Cabinet hefyd o awgrym y Pwyllgor Craffu i roi ystyriaeth bellach ynghylch i’r ffyrdd o gysylltu cartrefi ac ysbytai, a hefyd i'r mater o safleoedd bws coll a chyfnewidfeydd bws / cysylltiadau ar gyfer Croes Cwrlwys a Sycamore Cross. Rhoi gwybod i’r Cabinet hefyd am awgrym y Pwyllgor i gynnal ymgyrch farchnata dros yr haf, ar thema 'dal y bws'.

Y rhesymau dros yr argymhellion

(1) Darparu adroddiad diweddaru i'r Pwyllgor Craffu ymhen 6 mis.

(2) Yn dilyn sylwadau a wnaed mewn perthynas â pha mor uchel roedd rhai amserlenni bws wedi’u dangos a oedd hefyd yn cynnwys testun a oedd yn rhy fach ac yn anodd ei ddarllen.

(3) Rhoi gwybod i’r Cabinet am farn ac awgrymiadau y Pwyllgor Craffu Adfywio a’r Amgylchedd.

1004 ADOLYGIAD O GYNLLUNIAU TRWYDDED PARCIO PRESWYL 2021 Y CYNGOR (CYF) –

Cyflwynwyd y cyfeiriad o gyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd ar 21 Mawrth 2024 fel y’i ceir o fewn yr agenda.

Dywedodd y Cynghorydd S. Wiliam ei fod yn croesawu'r cynigion, gan ddweud bod angen ystyried parcio mewn perthynas â'r clwb cymdeithasol ar Ynys y Barri ymhellach. Cyfeiriodd y Cynghorydd Wiliam hefyd at ardaloedd y Cnap a White House a dywedodd fod rhai materion i'w datrys felly roedd angen adolygu parcio ar gyfer yr ardal honno.

Awgrymodd y Cynghorydd J. Protheroe argymhelliad ychwanegol ar gyfer arwyddion ychwanegol ar gyfer Aberogwr i wneud ymwelwyr yn ymwybodol o'r parthau trwyddedau parcio preswyl.

Adleisiodd y Cynghorydd M. Hooper sylwadau'r Cynghorydd Wiliam mewn perthynas ag Ynys y Barri. Anogodd y Cynghorydd Hooper y Cyngor i ymgysylltu'n fwy â thrigolion mewn perthynas â chynigion y Cyngor a dywedodd fod angen mwy o orfodaeth ar gyfer ardal y Cnap a Lakeside yn y Barri.

Mewn ymateb i'r sylwadau a wnaed, dywedodd Cyfarwyddwr yr Amgylchedd a Thai y cyfeiriwyd at White House yn benodol yn yr adroddiad oherwydd bod materion wedi bod yn hysbys ers peth amser. Cytunodd y Cyfarwyddwr fod angen adolygu'r ardal fel y gellid ystyried gwelliannau posibl. O ran Lakeside, roedd yn bwysig ystyried yr ystod o opsiynau yn ofalus, er enghraifft, pe bai Gorchymyn dim stopio neu aros ar unrhyw adeg yn cael ei gyflwyno, byddai camera gorfodi yn nodi unrhyw un a oedd wedi parcio mewn lleoliad neu wedi stopio, hyd yn oed am eiliad fer a byddai hyn yn cynnwys trigolion, eu hymwelwyr ac unrhyw gerbydau dosbarthu. Felly, roedd cydbwysedd mewn perthynas â'r math o reolaethau parcio y gellid eu cyflwyno. O ran y pwynt ynghylch ymgysylltu ar y trefniadau parcio preswyl newydd arfaethedig yn Ynys y Barri, dywedodd y Cyfarwyddwr ei fod yn cytuno, ac felly byddai ymgynghori gwell yn cael ei gynnal fel rhan o'r adolygiad a gynhelir dros y misoedd nesaf.

Dywedodd y Cynghorydd I. Perry nad oedd yn gallu deall pam nad oedd y cynllun trwyddedau parcio preswyl yn cyllido ei hun ac roedd yn teimlo ei fod yn rhywbeth yr oedd angen i'r Cyngor ei ystyried. Ychwanegodd y Cynghorydd Perry fod angen i'r Cyngor fod yn fwy rhagweithiol o ran lleihau'r defnydd o geir a pherchnogaeth ceir, yn enwedig mewn perthynas â mynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd.

Atgoffodd y Cadeirydd y Pwyllgor, o ran adennill costau, y byddai adroddiad pellach yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Craffu yn dilyn yr adolygiad.

Mewn ymateb i ymholiad ynghylch deiliaid Bathodyn Glas, eglurodd y Cyfarwyddwr fod y polisi yn ymdrin â sut y gallai deiliaid Bathodyn Glas barcio o fewn y parthau parcio preswyl ar yr amod bod eu bathodynnau yn cael eu harddangos. Byddai deiliaid Bathodyn Glas yn cael parcio am hyd at 3 awr mewn ardal barcio breswyl. Nid oedd unrhyw gynlluniau i hynny newid.

Gofynnwyd i'r Cynghorydd M. Wilson, yr Aelod Cabinet perthnasol, wneud sylw a dywedodd ei bod yn bwysig i'r Cyngor siarad ag Aelodau Ward lleol a thrigolion gymaint â phosibl. Roedd lefel uchel o ymgynghori eisoes wedi'i wneud a dyna pam roedd y Cyngor yn gwneud y newidiadau arfaethedig. Un o brif amcanion y Cyngor oedd gwneud y cynllun yn un sy'n gorfodi ei hun a lle nodwyd materion roedd gwelliannau'n cael eu hystyried.

Yn dilyn hynny,

ARGYMHELLWYD –

(1) BOD adroddiad diweddaru yn cael ei ddarparu i'r Pwyllgor Craffu Adfywio a'r Amgylchedd yn dilyn adolygiad y cynllun Trwyddedau Parcio Preswyl.

(2) BOD y Cabinet yn cael eu hysbysu am farn y Pwyllgor Craffu:

- Y dylid adolygu trefniadau yn benodol yn ardal Tŷ Gwyn / Cnap y Barri;
- Dylai fod patrolau gorfodi ychwanegol ar gyfer ardal Lakeside;
- Ystyried arwyddion ychwanegol ar gyfer Aberogwr;
- Fel rhan o'r adolygiad, dylid ymgysylltu'n ystyrlon â thrigolion yr effeithir arnynt i sicrhau bod eu barn a'u hanawsterau'n cael eu deall ac ymateb iddynt.

<u>Y rhesymau dros yr argymhellion</u>

(1 a 2) Wedi ystyried cynnwys yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

1005 ANSAWDD DŴR YMDROCHI AR DRAETHAU YMDROCHI DYNODEDIG YM MRO MORGANNWG (CAT) –

Ar gyfer yr eitem hon, croesawodd y Pwyllgor Mr. Steve Wilson (Rheolwr Gyfarwyddwr y Gwasanaethau Dŵr Gwastraff) a Mr. Daniel Humphrys (Rheolwr Cyswllt Ansawdd Afonydd) o Dŵr Cymru, a Mr. David Letellier o Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC).

Cyflwynodd Cyfarwyddwr yr Amgylchedd a Thai yr adroddiad a oedd yn amlinellu bod gan y Cyngor wyth traeth ymdrochi dynodedig yn ei ardal weinyddol, y crynodiad uchaf o draethau dŵr ymdrochi yn Ne-ddwyrain Cymru. Roedd ansawdd dŵr ymdrochi yn agwedd hanfodol ar iechyd y cyhoedd a diogelu'r amgylchedd, a chwaraeodd traethau ac arfordir y Fro ran allweddol wrth gefnogi'r economi leol, yn enwedig y diwydiant twristiaeth ffyniannus o amgylch Ynys y Barri, yn ogystal â lles trigolion lleol a aeth i'r dŵr yn rheolaidd.

Cafodd dau draeth newydd eu dynodi ar gyfer ymdrochi yn 2023 - Bae'r Tŵr Gwylio yn y Barri, a thraeth Aberogwr.

CNC oedd y corff rheoleiddio a oedd yn gyfrifol am fesur ansawdd dŵr ymdrochi yng Nghymru.

Dechreuodd CNC wneud gwaith samplu ansawdd dŵr ar y traethau hyn yn ystod tymor ymdrochi 2023. Yn anffodus, arweiniodd canlyniadau'r samplu yn y ddau draeth newydd eu dynodi at ddosbarthiad ansawdd dŵr ymdrochi 'Gwael' ar gyfer cyfnod ymdrochi 2023. Yn waeth, y traethau hyn oedd yr unig ddau draeth ag ansawdd dŵr 'Gwael' yng Nghymru.

Esboniodd yr adroddiad y system dosbarthu dŵr ymdrochi a'r gofynion deddfwriaethol a oedd yn berthnasol.

Er nad oedd Cyngor Bro Morgannwg yn gyfrifol am ansawdd dŵr ymdrochi, gallai ei swyddogion a'i Aelodau Etholedig fod â rôl yn gweithio gyda rheoleiddwyr CNC a Dŵr Cymru i geisio gwelliannau dros gyfnod rhesymol o amser.

Felly, esboniodd yr adroddiad y trefniadau arfaethedig i helpu i wella dyfroedd ymdrochi ar draethau ymdrochi dynodedig ym Mro Morgannwg a rôl y Cyngor yn hyn.

Gofynnodd y Cadeirydd i David Letellier roi diweddariad byr o safbwynt CNC. Dywedodd Mr Letellier y canlynol:

- Prif rôl CNC oedd monitro a dosbarthu dyfroedd ymdrochi sydd wedi'u dynodi'n ddŵr ymdrochi.
- Gosodwyd tymhorau ymdrochi o fewn Rheoliadau Dyfroedd Ymdrochi (2013) ac roedd y tymhorau hyn rhwng 15 Mai a 30 Medi.
- Dadansoddwyd samplau rheolaidd a gymerwyd trwy'r tymor i weld a oedd bacteria a oedd yn nodi bod ysgarthion yn bresennol - y bacteria a ddefnyddiwyd fel mesur oedd y rhai a oedd yn gysylltiedig â deunydd ysgarthol. Roeddent yn dangos carthion dynol yn ogystal â baw anifeiliaid – gan gynnwys buchod, defaid, cŵn, ceffylau ac adar. Felly roeddent yn cynnwys y llwyth bacteriol o lygredd gwasgaredig a tharddleoedd penodol o lygredd a defnyddiau tir amrywiol.
- Roedd y dosbarthiad a wnaed ar ddiwedd y tymor fel arfer yn seiliedig ar set ddata 4 blynedd a byddai'n cael ei gyhoeddi gan Lywodraeth Cymru yn yr Hydref yn dilyn y tymor.
- Yng Nghymru roedd 109 o ddyfroedd ymdrochi dynodedig, roedd gan ardal Bro Morgannwg 8 o ddyfroedd ymdrochi. Gyda chydymffurfiaeth o 75% â Rheoliadau Dyfroedd Ymdrochi 2013, ar draws Cymru roedd cydymffurfiaeth o 98.17%.
- Lle bo unrhyw samplau a ddadansoddwyd yn dangos lefel uwch o facteria, byddai swyddogion CNC yn ymchwilio ymhellach - gan gasglu data fel glawiad, lefel afonydd, data gollyngiadau gorlifoedd stormydd a gweithio gyda rhanddeiliaid allweddol yn y dalgylch fel Dŵr Cymru neu dirfeddianwyr i nodi unrhyw broblemau.
- Roedd mis Gorffennaf a mis Awst yn arbennig o wlyb yn ystod tymor 2023.
- Yn gyffredinol, gellid disgwyl ansawdd dŵr ymdrochi gwaeth yn dilyn digwyddiadau glawiad oherwydd dŵr ffo o'r tir a gollyngiadau stormydd.
- Ar ôl i unrhyw ddŵr ymdrochi gael ei ddosbarthu fel 'Gwael', CNC oedd yr asiantaeth briodol dan Reoliadau Dyfroedd Ymdrochi (2013), ac roedd angen iddynt gyflawni rhai camau gweithredu fel ymchwilio a rhoi mesurau ar waith yn y dŵr ymdrochi i atal, lleihau neu ddileu (fel y bo'n briodol) achosion llygredd.
- Yn ogystal, byddai CNC yn gweithio mewn partneriaeth â'r Cyngor a Dŵr Cymru i reoli’r dyfroedd ymdrochi a cheisio eu gwella.
- Ym Mae Jackson a Bae Whitmore yn y Barri, roedd CNC yn gweithio mewn partneriaeth â Chyngor Bro Morgannwg ac yn cyflwyno system Rhagweld Perygl Llygredd.

- Rhoddwyd cyllid gan gyllid cyfalaf Llywodraeth Cymru ar gyfer prosiectau Dŵr yn CNC 2022-2025 ar gyfer datblygu model a system awtomateiddio/roboteiddio i redeg y model.
- Byddai cyllid hefyd ar gael ar gyfer arwyddion gwell a system wybodaeth i roi ansawdd dŵr ymdrochi rhagweledig a chyngor yn erbyn ymdrochi pan oedd yr ansawdd rhagweledig yn wael.

Cafodd Mr Steve Wilson o Dŵr Cymru gyfle wedyn i siarad gerbron y Pwyllgor. Roedd y pwyntiau a drafodwyd gan Mr Wilson yn cynnwys:

- Trosolwg o Dŵr Cymru gan gynnwys yr ardal yr oedd yn ei gwasanaethu.
- Gwybodaeth gryno yn ymwneud â'r tymor Ymdrochi rhwng 15 Mai a 30 Medi 2023. Dangosodd y data ar gyfer y tymor hwn fod misoedd Gorffennaf, Awst a Medi yn arbennig o wlyb gyda glaw trwm.
- Roedd y system gyfun ar draws y rhan fwyaf o'r DU yn golygu bod swm y dŵr glaw a charthffosiaeth fudr a gasglwyd yn yr un pibellau yn golygu bod y system dros gapasiti, ac arweiniodd hyn at weithredu'r gorlifoedd stormydd.
- Roedd Dŵr Cymru wrthi'n dyfeisio cynllun buddsoddi 5 mlynedd ar gyfer 2025 i 2030, i uwchraddio ei asedau ac i fynd i'r afael â phroblemau gorlifoedd stormydd i reoli'r newid yn yr hinsawdd ac i geisio mynd i'r afael ag ansawdd dŵr afonydd. Yr unig gyllid a oedd ar gael i wneud y gwaith hwnnw oedd drwy daliadau a godwyd drwy ei gwsmeriaid.
- Rhagwelwyd y byddai'r cynllun buddsoddi terfynol ar gyfer 2025-2030 yn cael ei gymeradwyo erbyn mis Rhagfyr.
- O ran materion sy'n effeithio ar Fae'r Tŵr Gwylio yn y Barri, roedd Dŵr Cymru yn edrych ar wella model arfordirol y Barri i roi gwybodaeth ffynhonnell. Roedd hefyd yn ystyried cynlluniau ar gyfer gwelliannau o ran storio ar gyfer gorllewin y Barri. Roedd cynllun hefyd ar gyfer gwaredu 4.6 hectar o ddŵr wyneb yn Brock Hill Rise, Penarth.
- Ar gyfer Aberogwr, roedd Dŵr Cymru wedi dechrau datblygu model arfordirol ar gyfer dalgylch dŵr. Roedd Hysbysiad Rhagori ar Sbardun ar gyfer tymor ymdrochi 2023 wedi'i roi i CNC, felly roedd ymchwiliad pellach i'r achosion ar y gweill. Roedd cyllid ychwanegol yn cael ei gyflymu i ymchwilio i opsiynau ar gyfer storio ychwanegol yng Ngwaith Trin Dŵr Pen-y-bont a byddai gwaith ymyriadau ac ymchwiliadau asesu gorlifoedd stormydd yn parhau mewn dalgylch, gyda 16 o asedau mewn gwahanol gamau ymchwilio.
- Byddai Dŵr Cymru yn rhannu set ddata flynyddol gyda rheoleiddwyr ar ei 2300 o orlifoedd, a byddai'n sicrhau bod y data blynyddol ar gael ar ei wefan.
- Mae Dŵr Cymru hefyd yn rhannu rhybuddion byw o'i wirfodd ar gyfer rhai gorlifoedd stormydd gyda SAS (Surfers Against Sewage) ac roedd yn rhannu data bron amser real ar ei wefan ar ei Fap Gorlifoedd Stormydd newydd.
- Fodd bynnag, nid oedd data cyfaint ar gael oherwydd y math o offerynnau ar bob gorlif.
- Roedd cyswllt rheolaidd â CNC ar gyfer camau gwella, lliniaru a heriau gweithredol parhaus.

- Gwaith cymunedol gan gynnwys cydgysylltu â grwpiau rhanddeiliaid lleol, ac roedd yn gweithio'n agos gyda'r Cyngor, Sefydliad Cenedlaethol Brenhinol y Badau Achub a CNC, gyda chyfarfodydd Dŵr Ymdrochi rheolaidd yn cael eu cynnal.
- Roedd Dŵr Cymru yn chwilio am safleoedd ychwanegol i waredu dŵr wyneb drwy ddefnyddio 'atebion GlawLif', a byddai'n parhau i hyrwyddo ei ymgyrch 'Stop Cyn Creu Bloc'.

Ychwanegodd y Cynghorydd M. Wilson (Yr Aelod Cabinet dros Wasanaethau Cymdogaeth ac Adeiladau), gyda chaniatâd i siarad, fod yr heriau o amgylch rheoli dŵr yn gymhleth iawn a bod angen ymateb amlasiantaethol. Er mwyn mynd i'r afael â rhai o'r materion roedd angen ystyried yn fwy sut y cafodd yr amgylchedd ei reoli, er enghraifft y defnydd o arwynebau solet a gyfrannodd at y symiau mawr o ddŵr ffo a oedd yn mynd i mewn i'r rhwydwaith. Roedd hefyd yn bwysig i'r Cyngor wneud y cyhoedd yn ymwybodol o'r defnydd o suddfannau dŵr, ac yn benodol, effaith cadachau gwlyb a oedd yn broblem enfawr. Roedd y Cyngor yn ceisio lleihau swm y pethau a oedd yn debygol o achosi problemau ac roedd yn gweithio i geisio lleihau effaith llifogydd.

Gofynnodd y Cynghorydd S. Wiliam am eglurhad ynglŷn â gorlifoedd stormydd ym Mhenarth a effeithiodd ar Fae Jacksons. Mewn ymateb, dywedodd Daniel Humphrys (Dŵr Cymru) fod Dŵr Cymru wedi gwneud llawer o waith modelu yn yr ardal ac eglurodd y byddai llygrydd o Benarth yn debygol o gael ei olchi i fyny ar Fae Jacksons. Felly, roedd Dŵr Cymru yn datblygu dull gweithredu aml-gam o ran buddsoddi er mwyn mynd i'r afael â rhai o'r materion.

Dywedodd y Cynghorydd J. Protheroe fod ei hward yn cynnwys Aberogwr ac roedd mater ansawdd dŵr gwael yn rhywbeth a godwyd gan lawer o drigolion a grwpiau. Amlinellodd y Cynghorydd Protheroe mai cwestiwn allweddol a ofynnwyd gan syrffwyr a thrigolion oedd a oedd angen i Dŵr Cymru bostio ar eu gwefan bob tro y byddent yn gollwng carthion i'r afon. Yn ogystal, roedd cwestiwn hefyd ynghylch beth oedd cynlluniau Dŵr Cymru i wella ansawdd dŵr ac atal y carthion rhag cael eu rhyddhau. Mewn ymateb, dywedodd Steve Wilson (Dŵr Cymru), o ran gollwng carthion o’r rhwydwaith, fod Dŵr Cymru yn monitro'r gweithgaredd hwnnw, gyda bron pob un o'r 2,300 o orlifoedd stormydd ag offer monitro trydanol. Roedd Aberogwr yn cael ei monitro ac roedd Dŵr Cymru yn ceisio cyhoeddi'r wybodaeth fesul awr a byddai'r dolenni i'r wefan yn cael eu rhannu gyda nifer o grwpiau nofio. Felly, byddai trigolion a grwpiau nofio yn gallu gweld a oedd unrhyw ollyngiadau yn gweithredu o fewn yr awr. O ran cynlluniau i wella ansawdd dŵr, roedd yn bwysig cydnabod, ar gyfer Afon Ogwr, fod llawer o ffynonellau llygredd a gafodd eu cludo i lawr yr afon. Roedd y gwaith trin carthion yn agos iawn a oedd yn fawr iawn ac yn gwasanaethu holl drigolion Pen-y-bont ar Ogwr a Phorthcawl. Roedd gan y gwaith trin carthion hwnnw offer diheintio UV, ond byddai’r materion rheoli dŵr stormydd i fyny'r afon hefyd lle roedd 16 o orlifoedd stormydd ychwanegol. Yn ogystal, roedd llawer o dda byw fferm yn y dalgylch ac roedd yr ardal hefyd yn cynnwys llanw uchel. Felly, byddai dŵr glaw hefyd yn cael ei olchi i'r afon a allai gynnwys llygryddion. Ychwanegodd Mr Wilson mai gwaith Dŵr Cymru a CNC oedd parhau i ymchwilio i ffynonellau llygrydd ar draeth Ogwr ac o ble y daeth ffynonellau'r bacteria. Dyna oedd y prif ffocws ar hyn o bryd. Yn ogystal, roedd Dŵr Cymru hefyd yn edrych ar faterion yn

ymwneud â thanciau septig, gollyngiadau preifat o feysydd carafanau a ffynonellau eraill o lygrydd er mwyn deall yr holl ffactorau a oedd yn effeithio ar ansawdd dŵr ymdrochi.

Dywedodd Mr Wilson wrth y Pwyllgor, o ganlyniad i'r darlleniadau ansawdd dŵr gwael, fod buddsoddiad o £1m ar gael. Felly, roedd Dŵr Cymru yn edrych ar adeileddau concrit mawr y byddai angen eu hadeiladu neu eu rhoi ar waith, ond roedd hefyd yn bwysig deall yn iawn o ble roedd y llygrydd yn dod yn ogystal ag edrych ar sut roedd Dŵr Cymru yn gweithredu ei asedau.

O ran pryd y byddai ymchwiliad Dŵr Cymru i ffynonellau llygrydd yn cael ei gwblhau, eglurodd Mr Wilson y byddai ymchwiliadau'n cynnwys cryn dipyn o samplu dŵr ac y byddai hynny'n cael ei wneud ochr yn ochr â chydweithwyr o CNC. Byddai angen mwy o waith modelu hydrolig a fyddai'n cynnwys yr ardaloedd cyn belled â Phorthcawl a Phen-y-bont ar Ogwr. Gan fod angen llawer o waith i ddeall o ble roedd y dŵr yn dod, roedd yn debygol o fod yn ymarfer dwy neu dair blynedd ond nid oedd hynny'n golygu na fyddai unrhyw waith gwella yn cael ei wneud yn y cyfamser. Felly, roedd Dŵr Cymru yn awyddus i ddatblygu ei raglen fuddsoddi ar gyfer yr ardal. Un agwedd yr oedd angen ei hamlygu oedd y glaw a'r tywydd gwlyb sylweddol a oedd yn cael eu profi a fyddai'n effeithio ar lefel y llygrydd o fewn y systemau carthion a draenio dŵr.

Gofynnodd y Cadeirydd gwestiwn hefyd ynghylch ble roedd CNC yn cymryd samplau, gan dynnu sylw at y ffaith bod dymuniad i'r rheiny gael eu cymryd yn yr ardaloedd hynny lle'r oedd trigolion yn cael eu cynghori i nofio e.e. rhwng baneri coch ym Mae Whitmore. Addawodd CNC i roi hynny fel gwybodaeth ddilynol.

Dywedodd y Cynghorydd Protheroe fod nifer o grwpiau fel yr Achubwyr Bywyd eisiau deall sut y byddai'r darlleniadau a lefel ansawdd dŵr yn effeithio arnynt. Yn ogystal, roedd angen egluro lleoliad gwaith profi dŵr ac yn enwedig a fyddai gwaith profi yn cael ei wneud lle byddai nofwyr yn cael mynd i mewn i'r dŵr. Mewn ymateb, dywedodd David Letellier (CNC) nad oedd yn siŵr o union leoliad y gwaith profi ond cadarnhaodd fod y protocol profi wedi'i ddilyn ac felly o'i safbwynt ef nid oedd problemau ynglŷn â chanlyniad y prawf. Dywedodd Mr Letellier y byddai mwy o wybodaeth am y lleoliad yn cael ei rhannu y tu allan i gyfarfod y Pwyllgor. Ymhellach i'r pwynt hwnnw, dywedodd y Cadeirydd o safbwynt y Cyngor ac i drigolion, y byddai'n ddefnyddiol i ffocws samplu fod yn adlewyrchiad o ble roedd y rhan fwyaf o bobl yn nofio ac yn mwynhau dŵr lleol y Fro.

Gofynnwyd i Gyfarwyddwr yr Amgylchedd a Thai wneud sylw a dywedodd mai'r cyngor i bobl oedd y dylent fynd i mewn i'r dŵr ar eu risg eu hunain ac anogodd bobl i fynd i wefan y Cyngor i gael mynediad at y dolenni perthnasol i wefan CNC er mwyn deall y broses samplu ac i weld y samplau diweddaraf a gymerwyd yn ystod y tymor ymdrochi sydd i ddod. Byddai'n ddefnyddiol cynnwys rhywfaint o gyngor pellach ar y wefan am nofio ar ôl stormydd trwm a chyfnodau o law trwm a allai effeithio ar ansawdd y dŵr. Felly, byddai ymdrochwyr a nofwyr yn gallu gwneud addasiadau fel y gwelent yn dda. Yn ychwanegol at y pwynt hwnnw, dywedodd Steve Wilson fod app rhannu gwefan hefyd a fyddai'n rhoi gwybod pan oedd gorlifoedd stormydd yn gweithredu ac y byddai’r wybodaeth honno ar gael i unrhyw un a gofrestrodd. I'r cyhoedd, er mwyn gwybod a ddylent ymdrochi yn nŵr

y môr ai peidio, dylent ystyried a oedd gorlif storm wedi bod yn weithredol yn ystod y 24 awr flaenorol. Roedd gan Dŵr Cymru gynllun buddsoddi sylweddol gyda llawer o hynny'n canolbwyntio ar Fro Morgannwg. Felly roedd Dŵr Cymru yn cydnabod gwerth ansawdd dŵr da i'r amgylchedd ac economi Cymru.

Dywedodd y Cynghorydd Protheroe fod angen y modelu rhagweld llygredd a oedd yn cael ei wneud ar gyfer traethau'r Barri hefyd ar gyfer Aberogwr Felly, roedd yn bwysig i CNC a Dŵr Cymru lobïo Llywodraeth Cymru er mwyn derbyn cyllid ychwanegol fel y gellid gweithredu'r offeryn model rhagweld llygredd yn Aberogwr. Mewn ymateb, dywedodd David Letellier (CNC) y byddai barn CNC fel rhanddeiliad allweddol yn cael ei rhoi i Lywodraeth Cymru ac ar ôl i brosiect y Barri gael ei gwblhau roedd CNC yn awyddus iddo gael ei ehangu i Aberogwr.

O ran lobïo Llywodraeth Cymru, dywedodd y Cynghorydd M. Wilson (yr Aelod Cabinet dros Wasanaethau Cymdogaeth ac Adeiladau), gyda chaniatâd i siarad, ei fod yn gwbl gefnogol o godi mater arian ychwanegol ac y byddai'n cysylltu â Llywodraeth Cymru ar ran y Cyngor.

Dywedodd y Cynghorydd M. Hooper, o ran cyfarfodydd gyda thrigolion, y byddai'n ddefnyddiol hefyd gwahodd yr Aelodau Ward lleol. Hefyd, cododd y Cynghorydd Hooper y gwaith pwysig a gafodd ei wneud o amgylch Bae Whitmore yr haf diwethaf a wnaeth wahaniaeth gwirioneddol i ansawdd y dŵr. Mynegodd y Cynghorydd Hooper bryder mewn perthynas â'r model cenedlaethol o ddŵr a charthffosiaeth, yn enwedig yn Lloegr, gyda chyrff preifat yn gyfrifol. Roedd yn bwysig, gan fod dŵr yn wasanaeth cyhoeddus, i fwy o gyllid gael ei ddyrannu i'r ardaloedd blaenoriaeth allweddol. Yn olaf, nododd y Cynghorydd Hooper bwysigrwydd nofio yn y môr agored a oedd yn rhywbeth a oedd yn ychwanegu at iechyd a lles pobl, felly roedd adnoddau a chyllid ychwanegol i wella ansawdd dŵr yn bwysig. Mewn ymateb i bwynt y Cynghorydd Hooper ynglŷn â chyfarfodydd gyda thrigolion, dywedodd y Cyfarwyddwr y byddai'n gwirio a oedd Aelodau lleol wedi cael eu gwahodd a dywedodd y byddai, os na, yn sicrhau y byddai'r Aelodau'n cael eu gwahodd i gyfarfodydd yn y dyfodol.

Gwnaeth y Cynghorydd I. Perry sylw ar y mater o arwynebau caled, a oedd yn rhywbeth y gallai'r Cyngor o bosibl ei ystyried ymhellach yn enwedig ar gyfer ei brosiectau adeiladu ei hun. Mewn ymateb, dywedodd Mr Steve Wilson fod fframwaith cynllunio da yng Nghymru o ran y draenio trefol cynaliadwy. Roedd yn rhaid i bob adeilad newydd yng Nghymru ddod â systemau ar wahân a defnyddio draenio trefol cynaliadwy. Nid oedd yr her yn ymwneud ag adeiladau newydd, ond yn fwy ynghylch ôl-osod eiddo presennol, yn ogystal ag ymgripiad trefol a'r hyn yr oedd trigolion yn ei wneud ar eu heiddo a'u cwrtiliau eu hunain. Gofynnwyd i'r Cynghorydd Wilson wneud sylw arall a dywedodd fod y Cyngor yn siomedig gyda'r ddau ddarlleniad gwael o ran ansawdd dŵr, ond roedd y Cyngor yn benderfynol o gynorthwyo a hwyluso gwelliannau gyda Dŵr Cymru a CNC. Roedd hefyd yn bwysig cydnabod bod gan y Cyngor ei raglen Prosiect Sero a fyddai hefyd yn arwain at welliannau, ond roedd hefyd yn bwysig cydnabod effaith y newid yn yr hinsawdd. Croesawyd y buddsoddiad gan Dŵr Cymru ond byddai'r gwelliannau'n cymryd peth amser a olygai fod monitro cymaint â phosib yn bwysig yn ogystal â sicrhau bod y wybodaeth honno ar gael i'r cyhoedd.

Cododd y Cynghorydd L. Burnett (Arweinydd Gweithredol a'r Aelod Cabinet dros Berfformiad ac Adnoddau), gyda chaniatâd i siarad, bwynt o eglurhad sef bod y Cyngor yn defnyddio tarmac athraidd yn ei ysgolion, a bod pyllau arafu'n cael eu defnyddio'n helaeth hefyd.

Diolchodd y Cadeirydd i Dŵr Cymru a CNC am fod yn bresennol, ac roedd hi'n gobeithio ei bod wedi'i gwneud yn glir bod y Cyngor a'r trigolion yn bryderus iawn am y dosbarthiadau ansawdd dŵr gwael ac y byddai'n dwyn y ddau sefydliad i gyfrif am sicrhau bod y gwelliannau gofynnol yn cael eu cyflawni.

Yn dilyn hynny,

ARGYMHELLWYD – BOD y Pwyllgor Craffu Adfywio a'r Amgylchedd i dderbyn adroddiad diweddaru ar adeg briodol ac ar ôl tymor ymdrochi yr haf. Rhagor o adroddiadau diweddaru i'w hystyried fel rhan o drafodaethau Blaenraglen Waith y Pwyllgor.

Y rheswm dros yr argymhelliad

Wedi ystyried cynnwys yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.